# Strategaeth Cynnyrch Llaeth y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth
# Y sefyllfa ddiweddaraf – Mehefin 2001

## Nod Strategol 1
**(Gwella marchnata)**

### Rhai o'r gweithgareddau hyd yn hyn

- Gwaith Brandio ar Fwydydd a Diodydd o Gymru – mae Cyfarwyddiaeth Bwyd ADC wrthi'n trafod strategaeth labelu gyda chwmnïau cynnyrch llaeth yng Nghymru i sbarduno a gweithredu'r cynllun hwn.
- Mae prosiect llaeth ysgol peilot yn Sir Benfro wedi ei orffen. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol – cynnydd ardderchog yn faint o laeth a yfwyd mewn ysgolion oedd yn rhan o'r prosiect – ac ysgolion newydd yn ymuno ym mis Medi 2001
- Prosiect Ymchwil Llaeth Ysgol dros Gymru Gyfan yn datblygu, gyda dau hwylusydd yn awr yn chwarae rhan allweddol o ran darparu llaeth ysgol rhad ac am ddim i ddisgyblion cyfnod allweddol 1, gydag AALlau ac ysgolion yn ymuno â chynllun sybsidi llaeth y Gymuned Ewropeaidd a'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2.
- Cyfrannodd cwmnïau cynnyrch llaeth yng Nghymru yn frwd mewn Digwyddiadau Bwyd a Diod ac Arddangosfeydd trwy gyfrwng Cyfarwyddiaeth Bwyd ADC dros y flwyddyn ddiwethaf. Dyma'r digwyddiadau: Ffair Fwyd Barcelona, y Sioe Amaethyddol, SIAL ym Mharis ac IFE Llundain. Esgorodd ar 400 cyswllt cadarnhaol i gwmnïau Cynnyrch Llaeth Cymru.
- Mae aelodau CAWS wedi dangos eu cynnyrch mewn amrywiol ddigwyddiadau defnyddwyr ac arddangosfeydd
- Datblygwyd fersiwn Gymraeg o'r ymgyrch ‘White Stuff: are you made of it?’, sef 'Llaeth : y ddiod gadarn'.

### Meysydd Blaenoriaeth 2001/02

(a) Llaeth 5 - 18 oed

- gwaith datblygiadol gyda phobl ifanc rhwng 11 oed ac oed oedolion i'w gychwyn
- Cefnogaeth barhaus i'r Prosiect Ymchwil Llaeth Ysgol Cyfnod Allweddol 1 & 2

(b) Fersiwn Gymraeg 'White Stuff' ‘LLAETH : Y DDIOD GADARN’ a chefnogaeth weithredol i barhau.

(c) Cynllun Marchnata Cynnyrch Llaeth Cymru

- Cysyniadau a ddatblygwyd – ymchwil ac ymateb y diwydiant ar waith

(d) Cynllun Marchnata Allforio

- Cynllun Gwlad Belg ar waith, cynllun yr Almaen yn cael ei ddatblygu. Cynllun yr Iseldiroedd erbyn Medi 2001.

## Nod Strategol 2
**(Manteisio i'r eithaf ar berfformiad Proseswyr)**

**Crynodeb hyd yn hyn**

- Argraffwyd Cyfeirlyfr Gwasanaethau Bwyd-Amaeth i hwyluso'r broses o ledaenu gwybodaeth am amrywiaeth y gwasanaethau a ddarperir gan Bartneriaid Bwyd-Amaeth trwy Gymru benbaladr.
- Cyhoeddwyd prosbectws y diwydiant Cynnyrch Llaeth i hysbysu busnesau cynhenid a buddsoddwyr posib o'r tu allan o'r potensial i ddatblygu yng Nghymru. Lansiwyd hyn yn y Sioe Amaethyddol.
- Rhoddwyd cefnogaeth i'r Canolfannau Bwyd yng Nghymru er mwyn iddynt ddatblygu rhaglenni cefnogi hyfforddiant a datblygu cynnyrch newydd.
- Dyfarnwyd grantiau cymorth Datblygu Bwyd-Amaeth ADC i bum prosiect yn y sector cynnyrch llaeth.
- Dyfarnwyd pum Grant Marchnata a Phrosesu, gwerth dros ddwy filiwn o bunnoedd, gan Adran Amaethyddol y Cynulliad Cenedlaethol.
- Mae Ymchwil a Datblygu ADC wedi cefnogi gweithgarwch gan y tair Canolfan Arbenigedd a glustnodwyd yng Nghymru – Athrofa Caerdydd, Canolfan Bwyd Cymru, Horeb a Choleg Menai.
- Mae Partneriaid Bwyd-Amaeth / ADC yn awr yn gweithio gyda 9 Prosesydd Cynnyrch Llaeth Allweddol yng Nghymru i helpu gyda datblygu busnes. Mae materion yr ymdrinnir â hwy yn cynnwys datblygiad busnes cyffredinol, hyfforddiant, datblygu cynnyrch newydd, pecynnu ayb

**Meysydd Blaenoriaeth 2001/02**

(e) Digwyddiadau ac Arddangosfeydd
Parhau â'r strategaeth o roi proffil uwch i ddiwydiant cynnyrch llaeth Cymru trwy weithgareddau hyrwyddo a marchnata ar y cyd mewn digwyddiadau defnyddwyr a masnach.

- Anuga Germany
- *Summer Fancy Food Show*, Efrog Newydd
- *Hotelympia*, Olympia

- *Speciality and Fine Food Fair*, Olympia
- Sioe Aeaf y Sioe Amaethyddol
- Ffeiriau Bwyd Rhanbarthol
- *Good Food Show* y BBC

(f) Cynllun Buddsoddwyr o'r Tu Allan yn y Diwydiant Cynnyrch Llaeth

- Parhau â'r strategaeth o dargedu cwmnïau allweddol (Cwmnïau newydd a chwmnïau cyfredol) i fuddsoddi mewn prosesu cynnyrch llaeth Cymru

(g) Cefnogi datblygu cynnyrch newydd i ymateb i dueddiadau'r farchnad

(h) Rheoli cyfrifon

- Parhau â'r gwaith o ddarparu cyngor a chefnogaeth i gwmnïau cynnyrch llaeth yng Nghymru trwy system rheoli cyfrifon ADC.

(i) Sicrhau bod y cronfeydd strwythurol yn cael eu dosbarthu o fewn y sector er budd y diwydiant cynnyrch llaeth yng Nghymru.

- 6 ymholiad gan fusnesau Cynnyrch Llaeth ynghylch grantiau Prosesu a Marchnata Amcan 1

(j) Rhaglenni cefnogi hyfforddiant i Hufenfeydd Cymru

- Datblygiadau gyda Chanolfannau Bwyd ar waith

## Nod Strategol 3
**(Gwella perfformiad cynhyrchwyr)**

**Crynodeb hyd yn hyn**

- Cefnogi Coleg Sir Gâr i ddatblygu gwybodaeth am y diwydiant er mwyn galluogi ffermwyr i gymharu dwy system gynhyrchu.
- Cefnogwyd Cig Llo Cymru a Choleg Sir Gâr i ddatblygu prosiect peilot ynghylch cynhyrchu Cig Llo.
- Cefnogwyd Clwb Cynnyrch Llaeth Cymru i ddosbarthu trwy Gymru gyfan.
- Cefnogwyd dwy daith astudio i hwyluso trosglwyddo technoleg yn effeithiol
- Cyngor a chefnogaeth i ddatblygu Cyswllt Busnes - Canolfan Datblygu Cynnyrch Llaeth.

**Meysydd Blaenoriaeth 2001/02**

(k) Cyswllt Ffermio – sbarduno elfennau allweddol

- Hwyluswyr, Cynlluniau Datblygu Busnes Fferm, Mynediad at Grantiau Cyfalaf, Ffermydd Arddangos (Haen 1), Ffermydd Arddangos (Haen 2), Cylchoedd Peiriannau,
- Canolfannau Datblygu Cynnyrch Llaeth – Trosglwyddo technoleg. Sicrhau bod y rhaglen Datblygu Cynnyrch Llaeth yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus fel rhan o ddatblygiad cyffredinol Cyswllt Ffermio

(l) Parhau â'r gefnogaeth i brosiect Coleg Sir Gâr a'r cynllun budd lles

## Nod strategol 4
**(Gwell gwybodaeth)**

**Crynodeb hyd yn hyn**

- Lluniwyd gwybodaeth am y diwydiant yng Nghymru, a chronni'r wybodaeth honno'n brosbectws cynnyrch llaeth dros Gymru.
- Casglwyd gwybodaeth am y farchnad ar gyfer cwmnïau sy'n cymryd rhan mewn arddangosfeydd allweddol.
- Cynllun Busnes Sir Benfro – adroddiad ar y farchnad Cynnyrch Llaeth ar gael i ffermwyr a phroseswyr yn Sir Benfro.

**Meysydd Blaenoriaeth 2001/02**

(m) Ystadegau Cynnyrch Llaeth yng Nghymru

- Cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r diwydiant cynnyrch llaeth yng Nghymru o ran:
    - Dal cwota – Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol yn ymchwilio ffynonellau gwybodaeth gan y Bwrdd Ymyrraeth
    - Potensial Cymru o ran prosesu cynnyrch llaeth

**Cyfarwyddiaeth Fwyd ADC**